OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 675 (Cy. 152)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Gorffennaf 2020* |
| *Yn dod i rym* | *6 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 6 Gorffennaf 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

  (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

  (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 6 Gorffennaf 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai cerbytffordd tua'r gogledd neu gerbytffordd tua'r de y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.**—(1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gogledd gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 11, nad ydynt wedi eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r de, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r de y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gogledd.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r de gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 11, nad ydynt wedi eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gogledd, ni chaiff neb, yn ystod

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gogledd y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r de.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**10.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4 a 5 i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**11.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal Dros Dro

**12.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4 a 5 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 9 a 10 yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**13.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Gorffennaf 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Gwrthlif a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 2.1 cilometr i'r gogledd o Gyfnewidfa Ffynnon Taf hyd at bwynt tua 1.75 cilometr i'r de o Gyfnewidfa Glan-bad.

## ATODLEN 2
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Pob ffordd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r gogledd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad.

Y cilfannau cyfagos i gerbytffyrdd tua'r gogledd a thua'r de y gefnffordd sydd tua 1.4 cilometr i'r de o Gyfnewidfa Nantgarw ac 1.3 cilometr i'r gogledd o Gyfnewidfa Nantgarw.

## ATODLEN 3
## Gwahardd Cerbydau Llydan (dros 2.9 metr) a Beicwyr Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-

bad, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfeydd Ffynnon Taf a Nantgarw.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfeydd Glan-bad a Nantgarw.

## ATODLEN 4
## Terfynau Cyflymder 40 mya neu 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.1 cilometr i'r gogledd o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Coryton hyd at bwynt 320 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael tua'r gogledd.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 380 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad hyd at bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Trosbont Reilffordd Walnut Tree, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael tua'r de.

## ATODLEN 5
## Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 450 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street hyd at bwynt 350 o fetrau i'r de o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael tua'r gogledd.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r de o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon hyd at bwynt 485 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael tua'r de.